# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Ionawr 2019

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr D Wilcox (Cadeirydd), G Giles, D Harvey, Councillor R Jeavons, D Mayer, P Cockeram, J Mudd, Councillor R Truman and M Whitcutt

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriad.

2 **Datganiadau o Fuddiant**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf: 12 Rhagfyr 2018**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018 yn gywir gan y Cabinet.

4 **Dadansoddiad Canol Blwyddyn o Ddangosyddion Perfformiad**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a rhoi trosolwg byr o'r wybodaeth ynddo:

- Dyma'r sefyllfa hanner blwyddyn, ac mae'r sefyllfa ar y cyfan yn galonogol.
- Rydym yn gwella o'r naill flwyddyn i'r nesaf.
- Yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Rhagfyr, adroddwyd am Ail Dystysgrif Cydymffurfiaeth Swyddfa Archwilio Cymru.

Eglurodd yr Arweinydd mai pwrpas yr adroddiad yw rhoi trosolwg o'r cynnydd o ran cyflawni yn erbyn y cynlluniau gwasanaeth, rhan o Edefyn Aur y Cynllun Corfforaethol, a mesurau perfformiad ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (2018/19).

Mae'r adroddiad yn cynnwys adborth ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Pobl a'r Pwyllgor Craffu Lle a Materion Corfforaethol ar ôl cyflwyno'r cynlluniau gwasanaeth ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018.

Yn 2017, lansiwyd Cynllun Corfforaethol pum mlynedd y Cyngor yn llwyddiannus a nodai weledigaeth y Weinyddiaeth a'i nodau o ran darparu gwasanaethau Cyngor a chyflawni ei amcanion Llesiant er budd dinasyddion Casnewydd.

Er mwyn sicrhau bod y nodau hynny'n cael eu cyflawni, pennwyd pedair thema yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Casnewydd 2017-22 (Dinas Ffyniannus, Pobl Uchelgeisiol, Pobl Gydnerth, Cyngor wedi'i Foderneiddio) ac 20 ymrwymiad i'w cyflawni.

I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, mae wyth maes gwasanaeth y Cyngor wedi datblygu eu cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 2018-22, sy'n amlinellu sut y byddant yn cefnogi ac yn cyflawni ymrwymiadau'r Cyngor.

Er mwyn sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf, datblygodd pob maes gwasanaeth yn y Cyngor gynlluniau gwasanaeth unigol ategol, a gymeradwywyd gan bob un o Aelodau'r Cabinet.

Dangosai'r adroddiad y canlynol ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon:

- Adroddwyd bod 84% o'r camau gweithredu (205/245 o'r camau) a nodwyd yn y cynlluniau gwasanaeth *'Ar y gweill'.*
- Adroddwyd bod 7% o'r camau gweithredu (17/245 o gamau) *'Wedi'u cwblhau';* a bod 9% o'r camau (23 o 245 o gamau) *yn disgwyl cael eu dechrau.*

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf lle'r ydym y cyflawni yn erbyn amcanion y cynlluniau gwasanaeth, nid oedd disgwyl i feysydd gwasanaeth adrodd eu bod wedi llwyddo i gyflawni cyfran sylweddol o'r amcanion hyn.

Fodd bynnag, yr hyn y mae'r adroddiad yn ei amlygu yw datblygiadau nodedig wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, lle gwelwyd y Cyngor yn gwneud penderfyniadau dewr yn nghyd-destun pwysau ariannol parhaus. Nid oes cymhariaeth i'r cyfnod hwn o lymder, a diolchodd yr Arweinydd i'w chyd-aelodau ar y Cabinet am gamu i'w swyddi ac am fwrw ymlaen â rhai penderfyniadau anodd iawn.

Mae manylion llawn y datblygiadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, ond tynnodd yr Arweinydd sylw at beth o'r cynnydd a wnaed hyd yma.

- Prynu cartrefi newydd i ddod â phlant yn ôl o leoliadau y tu allan i'r sir, a fydd yn sicrhau bod modd rhoi gofal a chefnogaeth iddynt o fewn ardal Casnewydd; symudodd y plentyn cyntaf i mewn heddiw!
- Mae gwaith paratoi ar gyfer gorfodaeth parcio sifil ar y trywydd iawn i'w gyflawni yn 2019/20, a fydd yn gwneud Casnewydd yn fwy dymunol, yn enwedig canol y ddinas; bydd hyn o gymorth i 'werthu' ein dinas i ddatblygwyr a phartneriaid allanol a'i gwneud yn lle diogel i ddinasyddion;
- Mae gwaith i adfywio Canol Dinas Casnewydd yn mynd rhagddo'n dda, gyda safleoedd fel Tŵr y Siartwyr, Marchnad Casnewydd ac Arcêd y Farchnad yn cael eu hailddatblygu. I gefnogi hyn, mae gwaith hefyd ar y gweill i ddatblygu'r Ganolfan Gonfensiwn newydd yn Celtic Manor, a chymeradwyo cyllid o Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer y Bont Gludo
- Mae'r Hyb newydd yn Ringland ar y trywydd iawn i gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2019, a bydd yn newid y modd y darperir gwasanaethau rhyngom ni a'n sefydliadau partner i gymunedau Casnewydd.
- Adroddodd yr ysgolion yng Nghasnewydd fod eu canlyniadau TGAU a Safon Uwch wedi gwella, a chafwyd adborth cadarnhaol gan Estyn ynghylch darpariaeth Gwasanaethau Addysgol.

Mewn perthynas â'r Mesurau Perfformiad, adroddodd yr Arweinydd:

- Yn ystod chwe mis cyntaf 2018/19, roedd 40 allan o 63 o fesurau perfformiad yn '*Ar y Trywydd Iawn'* i gyrraedd neu fynd heibio'u targed. (Rhoddir mwy o fanylion ynghylch y mesurau hyn yng nghorff yr adroddiad).
- Adroddwyd bod 16 o 63 o fesurau perfformiad yn *'ambr'* neu *'heb wneud digon o gynnydd i gyrraedd eu targed'*
- Adroddwyd bod 9 o 63 o fesurau perfformiad yn *Goch* neu *'oddi ar y targed'.* (Yn ôl yr adroddiad roedd a wnelo pedwar o'r naw mesur â Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus/Cenedlaethol, ac mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y camau y mae'r meysydd gwasanaeth yn eu cymryd i wella'u perfformiad).

Pwysleisiodd yr Arweinydd fod angen i Aelodau Cabinet sicrhau bod mesurau yr adroddwyd eu bod naill ai'n 'Ambr' neu'n 'Goch' yn cael eu monitro'n agos, a sicrhau hefyd fod meysydd gwasanaeth yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i wella'u perfformiad cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Pwysleisiodd yr Arweinydd hefyd bwysigrwydd y rôl Craffu, ac adrodd Adborth ac Argymhellion y Pwyllgor Craffu, sef:

- Cafodd diweddariadau perfformiad canol blwyddyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Lle a Materion Corfforaethol a'r Pwyllgor Craffu Pobl ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018.

- Mae'r Adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am yr adborth a'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad i'w hystyried gan y Cabinet. Dyma grynodeb o'r adborth a'r argymhellion:

    - Roedd y pwyllgorau'n hapus gyda'r gwelliannau i strwythur yr adroddiadau, ond yn credu y gellid gwneud gwelliannau pellach drwy gynnwys cyfeiriadau ac esboniadau cliriach wrth ddefnyddio byrfoddau.
    - Gwell eglurder ynghylch y graddfeydd amser i gyflawni'r camau yn y cynlluniau gwasanaeth fel bo modd i Aelodau ddeall a herio'r cynnydd wrth gyflawni yn effeithiol;
    - Hyfforddiant a chymorth pellach i Aelodau'r Pwyllgor Craffu cyn adrodd ar ddiwedd y flwyddyn;
    - Gofynnwyd i'r Cabinet ymdrin â'r pryderon a godwyd ynghylch arafwch y cynnydd tuag at ddatblygu'r Uwchgynllun, ac a oedd gan y Cyngor ddigon o adnoddau i weithio gyda mewnfuddsoddwyr ar gyfleoedd datblygu graddfa fawr. (Cadarnhaodd yr Arweinydd fod hyn yn cael ei wneud ar gyllideb gyfyngedig iawn a graddfeydd amser tynn);
    - Roedd y Pwyllgor am gael sicrwydd bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i hyrwyddo Casnewydd yn sgil cael gwared â thollau Pont Afon Hafren. Unwaith eto, cadarnhaodd yr Arweinydd fod hyn yn cael ei wneud, a bod holl Aelodau'r Cabinet yn ymgysylltu â phartneriaid allanol i hyrwyddo Casnewydd.

Roedd yr Arweinydd yn awyddus i sicrhau bod y Cabinet, sy'n gyfrifol am oruchwylio a darparu'r cynlluniau gwasanaeth hyn, a lle ceir cynnydd da, cydnabod y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan feysydd gwasanaeth a'u staff.

I'r un graddau, pan adroddir am danberfformiad, fod Aelodau'r Cabinet yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod y meysydd gwasanaeth yn cymryd y cam(au) angenrheidiol i wella'u perfformiad a darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ddinasyddion Casnewydd.

Gofynnodd yr Arweinydd am sylwadau a chwestiynau gan ei chyd-aelodau ar y Cabinet a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'n bwysig cydnabod bod Cyngor Dinas Casnewydd yn parhau i gyflawni yn nhermau llymder;
- Mae gwasanaethau Cyngor Dinas Casnewydd yn parhau i ennill cydnabyddiaeth a gwobrau cenedlaethol;
- Cafwyd canmoliaeth am wella ffyrdd o weithio a moderneiddio gwasanaethau TG y Cyngor;
- Cafwyd cydnabyddiaeth am y dulliau newydd o weithio yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal, a nodwyd y gwaith da a oedd wedi'i ddatblygu gyda chymorth ariannol o'r Gronfa Drawsnewid, mewn perthynas â Gofal Cartref ac, wrth symud ymlaen, y Gwasanaethau Plant;
- Mae Cyngor Dinas Casnewydd ar y trywydd iawn i gychwyn ei gyfrifoldeb dros Orfodaeth Parcio Sifil ar 1 Gorffennaf 2019; mae strwythur newydd y tîm wedi'i gwblhau ac archwiliad wedi'i gynnal o bob stryd yng Nghasnewydd;

- Mynegwyd diolch i'r Gwasanaeth Addysg am y gwaith paratoi a wnaed cyn Arolygiad diweddar Estyn;
- Diolchwyd i'r holl gydweithwyr am y gwaith a wnaed mewn perthynas â'r newidiadau i Bremiwm y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo gwag; y gwaith rhagorol wrth gyflwyno'r Hyb Cymunedol, sy'n enghraifft lle mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth, yn fewnol ac yn allanol, i ddarparu gwasanaethau ac ansawdd bywyd gwell i ddinasyddion; y gwaith sy'n cael ei gyflawni i adfywio Casnewydd.

Gofynnwyd i’r Cabinet ystyried yr opsiynau canlynol:
**Penderfyniad:**
Cytunodd y Cabinet ar yr adroddiad.

5 **Data Perfformiad Disgyblion Addysg**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a chadarnhaodd y byddai'r Cabinet yn ymwybodol bod nifer o newidiadau sylweddol wedi'u cyflwyno i fesurau perfformiad Cyfnodau Allweddol 4 a 5 a'r rhaglenni astudio sy'n sylfaen i bob arholiad yng Nghymru.

Eglurodd yr Arweinydd fod y gyfres o sgiliau a'r wybodaeth yr oedd eu hangen i sefyll yr arholiadau yn wahanol i'r blynyddoedd cynt felly nid yw'n briodol cymharu'r canlyniadau a ddilyswyd ar gyfer 2018 â'r blynyddoedd blaenorol.

Roedd yr Arweinydd yn falch o adrodd bod ysgolion uwchradd Casnewydd wedi’u paratoi’n dda ar gyfer y newidiadau hyn, a bod hynny wedi arwain at ganlyniadau cryf yn y mesur Lefel 2 Cynhwysol, sef 57% o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 55.1%. Mae Casnewydd yn yr 8fed safle yng Nghymru, sy'n llawer uwch na'i safle cyfredol ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim, sef safle 13.

Dyma rai llwyddiannau eraill:

- Saesneg A*-C sydd wedi'i ddilysu ar 65% ar gyfer y Ddinas. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan am yr ail flwyddyn yn olynol; a
- Mathemateg A*-C sydd wedi'i ddilysu ar 65.2% sy'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan am y tro cyntaf ers 2011.

Mae'r rhain yn ganlyniadau cryf, y bu'n rhaid gweithio'n galed, a darparu cymorth cydgysylltiedig wedi'i deilwra'n arbennig, i'w sicrhau.

Adroddodd yr Arweinydd hefyd am y bobl hynny yn y Ddinas na wnaeth ennill y mesur lefel 2 cynhwysol, ond a wnaeth lwyddo i wireddu eu potensial ac ennill y mesurau lefel 1 neu 2 drwy ennill ystod o gymwysterau TGAU, neu gyfwerth.

Mynegodd yr Arweinydd longyfarchiadau i'r holl ddisgyblion hyn a llongyfarch y staff addysgu am eu harbenigedd, ac am arwain y disgyblion drwy'r cyfnod heriol hwn.

Mae dangosydd Cyfnod Allweddol 5 ar gyfer Cymru yn eithriadol o eang. Dyma'r diffiniad o drothwy Lefel 3: *'swm o gymwysterau sydd gyfwerth â 2 Safon Uwch A*-E'.*

Eleni cyflawnodd 95.7% o 732 o fyfyrwyr ôl-16 Casnewydd y mesur perfformiad hwnnw. Er bod hyn i'w ganmol, nid yw'n adrodd hanes y bobl ifanc niferus sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth ennill lle mewn Prifysgol o'u dewis, neu sydd bellach yn ffynnu mewn swydd. Llongyfarchodd yr Arweinydd yr holl bobl ifanc hynny sy'n cymryd y camau pwysig nesaf yn eu gyrfaoedd.

**Cyflwynodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau.**

Dywedodd yr Aelod Cabinet, er bod Casnewydd yn ei chyfanrwydd wedi sicrhau canlyniadau ardderchog, roedd angen rhoi canmoliaeth arbennig i ddwy ysgol uwchradd sydd wedi cyflymu eu canlyniadau yng nghyfnod allweddol 4;

- Dangosodd Ysgol St Julian gynnydd o 5.5% yn y dangosydd Lefel 2 cynhwysol a 4.7% o gynnydd mewn A*-C Mathemateg. Mae hyn yn gynnydd da.

- Dangosodd Ysgol Uwchradd Casnewydd gynnydd o 10% yn y dangosydd Lefel 2 Cynhwysol, a 10% o welliant yn y dangosydd lefel 2, a 12% o welliant mewn A*-C Saesneg. Mae hyn yn newyddion rhagorol.

Er bod amrywiant ym mherfformiad ysgolion uwchradd yn thema sydd i'w gweld ledled Cymru, mae'r mathau hyn o welliannau mewn ysgolion uwchradd unigol yn helpu i leihau'r broblem honno. Llongyfarchodd yr Aelod Cabinet y disgyblion, y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni yng nghymunedau ysgolion Uwchradd Casnewydd a St Julian.

Er nad oedd hynny wedi'i gynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn, roedd yn gyson â'r darlun parhaus o gynhwysiant yng Nghasnewydd, sef sicrhau bod pob unigolyn ifanc yn cyfrif. Dros y saith mlynedd diwethaf, cafwyd gostyngiad o 80% yng nghyfradd y plant ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant (NEETS) ym Mlwyddyn 11. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae Casnewydd wedi symud o fod yn Awdurdod Lleol yn y pedwerydd safle ar ddeg (14eg) i'r 8fed safle, ac mae'n ymroddedig i sicrhau bod pob unigolyn ifanc yn cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae angen gwneud gwaith pellach ar bob cyfres o ganlyniadau perfformiad. Yng Nghasnewydd, y bwriad yw canolbwyntio ar gyflymu canlyniadau Prydau Ysgol am Ddim a gwella'r mesur perfformiad newydd 'Capio 9' yng Nghyfnod Allweddol 4. Bydd yr Awdurdod yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Gwella Ysgolion y GCA a phob un o ysgolion uwchradd Casnewydd i sicrhau bod y gwelliant hwn yn cael ei gydnabod mewn blynyddoedd dilynol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelod Cabinet a chytunodd fod hon yn stori newyddion gwirioneddol dda gan fod addysg yn gweddnewid bywydau pobl ifanc, gan roi blociau iddynt adeiladu eu dyfodol.

**Penderfyniad:**
Bod y Cabinet yn cytuno â'r adroddiad.

6 **Rhaglen Waith**

Cyflwynodd Arweinydd y cyngor ddiweddariad newydd i'r rhaglen waith.

**Penderfyniad:**
Bod y Cabinet yn cytuno ar y rhaglen waith wedi'i diweddaru.

7 **Dogfen Gryno'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (er gwybodaeth/ymwybyddiaeth)**

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y ddogfen hon yn rhoi diweddariad misol cryno o fusnes y BGC a'i bod er gwybodaeth/ymwybyddiaeth y Cabinet.

8 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 13 Chwefror am 4pm, Ystafell Bwyllgor 1**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mercher 13 Chwefror 2019, am 4.00pm yn Ystafell Bwyllgor 1, yn y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd.